

# Arolygiad o Wasanaeth Iechyd Meddwl Annibynnol (Dirybudd)

Coed Du Hall

Dyddiad arolygu: 4 - 6 Tachwedd 2019

Dyddiad cyhoeddi: 6 Chwefror 2020

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu**  
**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**  
**Llywodraeth Cymru**  
**Parc Busnes Rhydycar**  
**Merthyr Tudful**  
**CF48 1UZ**

Neu

**Ffôn: 0300 062 8163**  
**E-bost: [hiw@gov.wales](mailto:hiw@gov.wales)**  
**Gwefan: [www.agic.org.uk](http://www.agic.org.uk)**

## Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom .....	5
2.	Crynodeb o'n harolygiad .....	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym.....	8
	Ansawdd profiad y claf .....	9
	Darparu gofal diogel ac effeithiol .....	14
	Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth .....	24
4.	Beth nesaf? .....	28
5.	Sut rydym yn arolygu gwasanaethau iechyd meddwl annibynnol .....	29
	Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad .	30
	Atodiad B – Cynllun gwella .....	31

# Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

## Ein diben

Gwneud yn siŵr bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal iechyd o ansawdd da

## Ein gwerthoedd

Rydym yn rhoi cleifion wrth wraidd yr hyn a wnawn. Rydym yn:

- Annibynnol
- Gwrthrychol
- Gofalgar
- Cydweithredol
- Awdurdodol

## Ein blaenoriaethau

Drwy ein gwaith, ein nod yw:

Rhoi sicrwydd:

Cynnig barn annibynnol ar ansawdd y gofal

Hybu gwelliant:

Annog gwelliant drwy lunio adroddiadau a rhannu arfer da

Dylanwadu ar bolisi a safonau:

Defnyddio'r hyn rydym yn ei ganfod i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer

# 1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad dirybudd o wasanaeth iechyd meddwl annibynnol Coed Du Hall ar noson 4 Tachwedd 2019, a'r diwrnodau canlynol, sef 5 a 6 Tachwedd.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys dau arolygydd o AGIC, dau adolygwr sy'n gymheiriaid clinigol (un ohonynt oedd yr adolygwr enwebedig o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl) ac un adolygwr lleyg. Arweiniwyd yr arolygiad gan un o arolygwyr AGIC.

Yn ystod yr arolygiad hwn, adolygwyd dogfennaeth ar gyfer cleifion a gadwyd o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 er mwyn asesu cydymffurfiaeth â'r Ddeddf.

Ystyriodd AGIC sut roedd y gwasanaeth yn cydymffurfio â Deddf Safonau Gofal 2000, gofynion Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 ac yn cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd Annibynnol yng Nghymru. Lle y bo'n briodol, mae AGIC hefyd yn ystyried i ba raddau y mae gwasanaethau'n cydymffurfio â'r Ddeddf Iechyd Meddwl (1983), y Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) (2010), y Ddeddf Galluedd Meddyliol (2005) a Threfniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid.

Ceir manylion pellach am y ffordd rydym yn cynnal arolygiadau o wasanaethau iechyd meddwl annibynnol yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

## 2. Crynodeb o'n harolygiad

Gwelsom fod trefniadau llywodraethu ar waith a oedd yn helpu i alluogi'r staff i roi gofal diogel a chlinigol effeithiol i'r cleifion. Fodd bynnag, mae angen gwneud gwelliannau o ran rheoli meddyginiaeth a gwiriadau cyfarpar brys a meddyginiaeth.

Roedd y staff yn ymroddedig ac yn wybodus ac roedd ganddynt ddealltwriaeth dda o anghenion unigol y cleifion yn yr ysbyty.

Mae angen gwneud gwelliannau o ran cwblhau hyfforddiant gorfodol ac mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod yr holl staff yn cael arfarniadau perfformiad blynyddol.

Nodwyd gennym fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Cynnal amgylchedd gofal a oedd yn briodol i'r grŵp cleifion
- Roedd therapïau a gweithgareddau yn yr ysbyty a'r gymuned yn helpu cleifion i gynnal a datblygu sgiliau
- Roedd y staff yn dangos parch wrth ryngweithio ac ymgysylltu â'r cleifion
- Cadw cofnodion cleifion manwl a Chynlluniau Gofal a Thriniaeth sy'n adlewyrchu parthau Mesur Cymru.

Argymhellwn y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Ystod a fformat y wybodaeth a arddangosir i'r cleifion
- Trefniadau rheoli meddyginiaeth
- Gwiriadau cyfarpar brys a meddyginiaeth
- Cydymffurfiaeth â hyfforddiant gorfodol.

Gwnaethom nodi achosion o dorri rheoliadau yn ystod yr arolygiad hwn mewn cysylltiad â rheoli meddyginiaeth. Ceir rhagor o fanylion yn Atodiad B. Er nad yw hyn wedi arwain at roi hysbysiad diffyg cydymffurfio, disgwylir i'r darparwr cofrestredig gymryd camau ystyrlon er mwyn mynd i'r afael â'r materion hyn,

oherwydd, os nad yw'n gwneud hynny, gallai arwain at achos o ddiffyg cydymffurfio â'r rheoliadau.

### 3. Yr hyn a nodwyd gennym

#### **Cefndir y gwasanaeth**

Mae Coed Du Hall wedi'i gofrestru i ddarparu ysbyty annibynnol yn Coed Du Hall, Nant Alyn Road, Rhydymwyn, Yr Wyddgrug, CH7 5HA.

Mae gan y gwasanaeth 22 o welyau cofrestredig ac mae'n cynnwys Ash Ward lle ceir saith gwely, Beech Ward lle ceir pum gwely, Cedar Ward lle ceir chwe gwely a phedair Stiwdio gwely sengl. Mae Ash Ward a Beech Ward yn wardiau un rhyw.

Mae Ash Ward a Cedar Ward yn lletya cleifion rhwng 18 a 65 oed ac mae Beech Ward yn lletya cleifion dros 65 oed. Mae'r ysbyty yn darparu llety i gleifion y mae eu hangen sylfaenol am ofal a thriniaeth yn deillio o ddiagnosis o salwch meddwl. Ar adeg yr arolygiad, roedd deg claf.

Mae'r gwasanaeth yn cyflogi rheolwr ysbyty. Fodd bynnag, ar adeg yr arolygiad roedd rheolwr yr ysbyty, a benodwyd yn ddiweddar, yn aros i ddechrau yn y swydd ac roedd y Cyfarwyddwr Gweithrediadau yn goruchwyllo'r gwaith o reoli'r ysbyty o ddydd i ddydd. Hefyd, roedd gan yr ysbyty reolwr ysbyty cynorthwyol.

Mae'r tîm amlddisgyblaethol yn cynnwys seiciatrydd ymgynghorol, seicolegydd (y disgwylir iddo ddechrau yn y swydd ym mis Rhagfyr 2019), therapydd galwedigaethol a chynorthwywyr therapi galwedigaethol gyda thîm o nyrsys cofrestredig a gweithwyr cymorth gofal iechyd.

Mae'r ysbyty yn cyflogi tîm o staff arlwyo, domestig a chynnal a chadw.

Cafodd y gwasanaeth ei gofrestru gyntaf ar 1 Ebrill 2002.



## Ansawdd profiad y claf

*Cawsom sgwrs â'r cleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (lle roedd hynny'n briodol) er mwyn sicrhau bod safbwynt y claf yn ganolog i'n dull o arolygu.*

Gwelsom fod y staff yn rhyngweithio ac yn ymgysylltu â'r cleifion mewn modd priodol, ac yn eu trin ag urddas a pharch.

Roedd amrywiaeth o weithgareddau a therapiau addas ar gael yn Coed Du Hall ac yn y gymuned. Roedd y rhain yn rhoi cyfleoedd adfer ac adsefydlu i'r cleifion fel rhan o Weithgareddau Bywyd Beunyddiol<sup>1</sup>.

Roedd amrywiaeth o wybodaeth ar gael i'r cleifion ac ymwelwyr. Fodd bynnag, gellid gwneud gwelliannau o ran yr hyn sy'n cael ei arddangos ac mae'n rhaid ystyried y ffordd y mae'r ysbyty yn arddangos gwybodaeth i'r cleifion er mwyn eu helpu i'w deall.

### Hybu, diogelu a gwella iechyd

Roedd gan Coed Du Hall amrywiaeth o gyfleusterau i gefnogi'r ddarpariaeth o therapiau a gweithgareddau. Roedd cerbydau ysbyty a oedd yn helpu'r staff i hwyluso gweithgareddau i'r cleifion a'u cludo i apwyntiadau meddygol yn y gymuned.

Roedd cofnodion y cleifion yn dangos bod y cleifion yn cael eu cefnogi i fod yn annibynnol. Roedd cleifion yn cael eu hannog a'u helpu i ymgymryd â Gweithgareddau Bywyd Beunyddiol a oedd yn eu helpu i wella ac adsefydlu.

Roedd gan Coed Du Hall gegin therapi galwedigaethol y gallai'r cleifion ei defnyddio i baratoi prydau, gyda chymorth gan y staff yn ôl yr angen. Yn

---

<sup>1</sup> Gall y gweithgareddau hyn gynnwys tasgau bob dydd megis gwisgo, hunanfwydo, ymolchi, golchi dillad, a pharatoi prydau bwyd.

ogystal, roedd gan bob ward gegin fach ac roedd gan y stiwdios eu ceginau eu hunain y gallai'r cleifion eu defnyddio yn annibynnol.

Roedd tîm therapi galwedigaethol ymroddedig yn yr ysbyty a oedd yn darparu amrywiaeth o asesiadau a gweithgareddau i helpu cleifion i adsefydlu. Drwy gydol yr arolygiad, gwelsom y cleifion yn cymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau therapiwtig a hamdden, gyda llawer o'r cleifion yn defnyddio Caniatâd i fod yn Absennol o dan Adran 17<sup>2</sup> yn rheolaidd er mwyn manteisio ar gyfleoedd yn y gymuned leol. Cadarnhaodd y staff a'r cleifion eu bod yn defnyddio cyfleusterau hamdden cymunedol yn rheolaidd; roedd hyn hefyd wedi'i ddogfennu yng nghofnodion y cleifion. Roedd ystafell fwyta gymunedol fawr a oedd hefyd yn cael ei defnyddio ar gyfer gweithgareddau y tu allan i amseroedd bwyd.

Roedd gan bob ward ei lolfa ei hun lle y gallai'r cleifion ymlacio pan nad oeddent yn cymryd rhan mewn gweithgareddau. Roedd y cleifion hefyd yn gallu cael cyfarpar electronig yn eu hystafelloedd gwely megis teledu, system gerddoriaeth a chonsolau gemau.

Roedd gan y cleifion fynediad anghyfyngedig i ardd amgaeedig er mwyn gallu cael awyr iach. Roedd y staff hefyd yn trefnu iddynt fynd am dro o amgylch tir yr ysbyty a'r gymuned leol.

### Urddas a pharch

Gwelsom fod yr holl staff yn rhyngweithio ac yn ymgysylltu â'r cleifion mewn modd priodol, ac yn eu trin ag urddas a pharch. Roedd y staff y cawsom sgwrs â nhw yn teimlo'n angerddol am eu rolau ac yn frwdfrydig ynghylch y ffordd yr oeddent yn cefnogi'r cleifion ac yn gofalu amdanynt.

Clywsom y staff yn siarad â'r cleifion mewn modd digynnwrf drwy gydol ein harolygiad. Gwelsom fod y staff yn trin y cleifion â pharch; pan oedd y cleifion yn mynd at aelodau o'r staff, roeddent yn cael eu trin mewn ffordd gwrtais, gofalgar ac ymatebol.

---

<sup>2</sup> Mae Adran 17 o Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 yn rhoi awdurdod i glaf sy'n cael ei gadw fod yn absennol o'r ysbyty am gyfnod.

Roedd y cleifion y gwnaethom siarad â nhw, ynghyd â pherthnasau a oedd yn ymweld, yn canmol ymgysylltiad y staff a'r gofal a ddarparwyd yn yr ysbyty.

Roedd gan bob claf ei ystafell wely ei hun y gallai fynd iddi drwy gydol y dydd; roedd yr ystafelloedd gwely yn cynnig safon dda o breifatrwydd i gleifion. Dim ond drwy ddefnyddio eu bandiau arddwrn allwedd clyfar y gallai'r cleifion fynd i'w hystafelloedd gwely eu hunain; roedd gan y staff eu bandiau arddwrn eu hunain a oedd yn agor pob ystafell wely os oedd angen.

Gwelsom nifer o ystafelloedd gwely cleifion, ac roedd yn amlwg bod modd i gleifion bersonoli eu hystafelloedd a bod digon o le i storio eu heiddo.

Roedd gan yr ysbyty ystafelloedd penodol i gleifion gyfarfod â staff y ward a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill yn breifat. Roedd trefniadau ymweld ar waith i gleifion gwrdd ag ymwelwyr yn yr ysbyty.

### **Gwybodaeth i gleifion a chydysyniad cleifion**

Ym mhob rhan o'r ysbyty roedd peth gwybodaeth wedi'i harddangos ac ar gael i'r cleifion. Fodd bynnag, gellid gwella hyn.

Roedd hysbysfyrddau a oedd yn dangos gwybodaeth i'r cleifion o ran eiriolaeth, cwynion a diogelu. Roedd gwybodaeth am fwyta'n iach hefyd wedi'i harddangos yn yr ystafell fwyta. Yn ogystal, roedd y bwydlenni i'r cleifion ddewis eu prydau yn cynnwys lluniau o rai o'r prydau er mwyn helpu rhai cleifion i ddewis yr hyn roeddent am ei fwyta.

Roedd gan yr ysbyty amrywiaeth o daflenni gwybodaeth am Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 (y Ddeddf). Fodd bynnag, nid oedd y rhain wedi'u harddangos nac ar gael yn hawdd i'r cleifion.

Roedd gwybodaeth am Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) wedi'i chynnwys yn y wybodaeth am gwynion, ond mae angen arddangos manylion pellach am rôl AGIC a sut i gysylltu â ni.

Er bod peth gwybodaeth wedi'i harddangos mewn amrywiaeth o ffurfiau, megis bwydlenni darluniadol, mae'n rhaid ystyried sut mae'r ysbyty yn arddangos gwybodaeth i'r cleifion er mwyn eu helpu i'w deall.

#### **Yr hyn sydd angen ei wella**

Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau'r canlynol:

- Bod gwybodaeth am y Ddeddf Iechyd Meddwl yn cael ei harddangos

- Bod gwybodaeth am AGIC a sut i gysylltu â ni yn cael ei harddangos ar y wardiau
- Bod gwybodaeth yn cael ei harddangos ar ffurf sy'n helpu'r cleifion i'w deall.

### **Cyfathrebu'n effeithiol**

Drwy arsylwi ar y rhyngweithio rhwng y staff a'r cleifion, roedd yn amlwg bod y staff yn sicrhau eu bod yn cyfathrebu'n briodol ac yn effeithiol â'r cleifion. Roedd y staff yn cymryd amser i gynnal trafodaethau, gan ddefnyddio geiriau ac iaith a oedd yn addas i'r claf unigol. Lle roedd y cleifion yn cael anhawster o hyd i ddeall rhywbeth, neu lle roedd yr hyn roedd claf yn ceisio ei gyfleu yn cael ei gamddeall, byddai'r staff yn ceisio gofyn yn amyneddgar am eglurhad o'r hyn yr oedd wedi'i ddweud.

Roedd cyfarfod dyddiol bob bore lle roedd y staff yn trefnu'r gweithgareddau, yn yr ysbyty ac yn y gymuned, ochr yn ochr â gweithgareddau a chyfarfodydd eraill, megis cyfarfodydd cynllunio gofal, tribiwnlysoedd ac apwyntiadau meddygol. Caiff unrhyw ddigwyddiadau, pryderon neu faterion cynnal a chadw eu trafod hefyd a chytunir ar gamau gweithredu.

Roedd yr ysbyty'n cynnal fforwm misol lle roedd y cleifion yn cael cyfle i roi adborth ar y gofal y maent yn ei gael yn yr ysbyty a thrafod unrhyw ddatblygiadau neu bryderon. Roedd poster wedi'i arddangos yn rhoi gwybod i'r cleifion am y fforwm a disgrifiodd y staff ddulliau i annog y cleifion i fynychu a chymryd rhan.

Roedd yr ysbyty'n cynnal cyfarfodydd tîm amlddisgyblaethol rheolaidd, lle roedd cleifion neu eu cynrychiolwyr etholedig yn cyfarfod â'r tîm clinigol i drafod eu gofal a'r cynlluniau gofal at y dyfodol.

Ar gyfer cyfarfodydd unigol, gallai'r cleifion gael cymorth gan gyrff allanol i roi cymorth ac arweiniad, megis cyfreithwyr neu wasanaeth eirioli. Gyda chytundeb cleifion, roedd eu teuluoedd a'u gofalwyr hefyd yn cael eu cynnwys mewn rhai cyfarfodydd.

### **Cynllunio a darparu gofal**

Roedd gofal yn cael ei addasu ar gyfer yr unigolyn, roedd yn canolbwyntio ar adferiad ac roedd yn cael ei roi ar sail arferion lleiaf cyfyngol, o ran cynllunio gofal ac o ran arferion y ward neu'r ysbyty.

Roedd gan bob claf ei raglen gofal ei hun a oedd yn seiliedig ar ei anghenion unigol megis meddyginiaeth, sesiynau therapi a gweithgareddau. Roedd y rhain yn cynnwys sesiynau unigol a grŵp, wedi'u lleoli yn yr ysbyty ac yn y gymuned.

Roedd Coed Du Hall yn darparu amgylchedd adsefydlu i'r cleifion gydag amrywiaeth eang o gyfleusterau a oedd wedi'u cynnal a'u cadw'n dda i gefnogi'r ddarpariaeth o therapiau a gweithgareddau. Roedd y tîm therapi galwedigaethol yn cynnal asesiadau o alluoedd cleifion a pha therapiau, cymorth a gweithgareddau a fyddai'n fuddiol er mwyn helpu'r claf i wella.

Yn ogystal, roedd y pedair stiwdio yn yr ysbyty yn rhoi'r cyfle i'r cleifion gael gofal mewn amgylchedd heb fawr ddim cymorth gan y staff er mwyn eu paratoi i gael eu rhyddhau i amgylchedd llai caeth.

Drwy gydol yr arolygiad, gwelsom gleifion yn cymryd rhan mewn gweithgareddau unigol a grŵp yn yr ysbyty ac yn y gymuned.

### **Cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol**

Roedd arferion y staff yn gyson â pholisïau a systemau sefydledig y sefydliad a oedd yn sicrhau bod cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau cleifion yn cael eu cynnal. Roedd cynllun yr ysbyty a pholisïau'r sefydliad yn sicrhau amgylchedd hygyrch i bobl y gallai fod ganddynt anghenion symudedd.

Roedd dogfennaeth gyfreithiol i gadw cleifion o dan y Ddeddf yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth ac yn dilyn canllawiau Cod Ymarfer Cymru 2016 ar y Ddeddf Iechyd Meddwl (Cod 2016).

Roedd dogfennaeth at ddefnydd y Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid (DoLS) ar waith a oedd yn sicrhau dilysrwydd yr awdurdodiadau DoLS.

Roedd gan yr ysbyty ystafell aml-ffydd ac roedd llenyddiaeth berthnasol ar gael i gefnogi'r cleifion i addoli eu dewis crefydd.

### **Ymgysylltu â dinasyddion ac adborth dinasyddion**

Roedd cyfarfodydd rheolaidd â chleifion yn cael eu cynnal er mwyn galluogi'r cleifion i roi adborth ar y gofal a ddarperir yn yr ysbyty.

Roedd polisi a gweithdrefnau cwyno ar waith yn Coed Du Hall. Mae'r polisi yn cynnig strwythur i wasanaethau yn yr ysbyty ymdrin â chwynion gan gleifion.

Roedd gwybodaeth wedi'i harddangos yn esbonio sut y gallai'r cleifion godi pryder neu gŵyn. Fel y nodwyd yn gynharach, mae'n rhaid ystyried sut mae'r ysbyty yn arddangos gwybodaeth i'r cleifion er mwyn eu helpu i'w deall.

## Darparu gofal diogel ac effeithiol

*Ystyriwyd i ba raddau y mae gwasanaethau'n darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.*

Roedd amgylchedd yr ysbyty yn cynnwys dodrefn, gosodiadau a ffitiadau addas ar gyfer y grŵp cleifion.

Roedd prosesau ac archwiliadau sefydledig ar waith i reoli risg ac iechyd a diogelwch. Roedd hyn yn galluogi'r staff i roi gofal diogel a chlinigol effeithiol i'r cleifion. Fodd bynnag, mae angen gwneud gwelliannau o ran trefniadau rheoli meddyginiaeth yr ysbyty.

Roedd dogfennaeth gyfreithiol mewn perthynas â'r Ddeddf Iechyd Meddwl a'r Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth berthnasol.

### Rheoli risg ac iechyd a diogelwch

Roedd gan Coed Du Hall brosesau sefydledig ar waith i reoli ac adolygu risgiau a chynnal iechyd a diogelwch yn yr ysbyty. Roedd y rhain yn helpu'r staff i ddarparu gofal diogel a chlinigol effeithiol.

Roedd modd cael mynediad i'r ysbyty yn uniongyrchol o faes parcio'r ysbyty ac roedd mynediad addas i bobl ag anawsterau symudedd. Roedd angen i'r ymwelwyr fynd i mewn i'r ysbyty drwy dderbynfa; mae hyn yn atal pobl heb awdurdod rhag mynd i mewn i'r adeilad. Roedd mynediad drwy'r ysbyty wedi'i gyfyngu er mwyn sicrhau diogelwch y cleifion, y staff ac ymwelwyr.

Roedd larymau personol ar gael i'r staff y gallent eu defnyddio i alw am gymorth os oedd angen. Roedd manau galw am nyrs wedi'u lleoli o amgylch yr ysbyty hefyd ac o fewn cyrraedd i'r gwely yn ystafelloedd gwely'r cleifion; roedd hyn yn helpu'r cleifion i alw am gymorth os oedd angen. Fodd bynnag, nid oedd un man galw mewn toiled ar Beech Ward o fewn cyrraedd hawdd i'r toiled na'r llawr, felly gallai beri anhawster i unigolyn yn yr ardal honno oedd am alw am gymorth.

Roedd drysau ystafelloedd gwely'r cleifion yn seinio petai'r claf yn yr ystafell wedi agor y drws i adael ei ystafell; mae hyn yn rhoi gwybod i'r staff fel y gallant gefnogi a monitro symudiadau'r claf. Nodwyd hefyd, lle roedd claf yn debygol o gwmpo, y defnyddiwyd matiau pwysau i roi gwybod i'r staff bod y claf yn codi

o'r gwely. Roedd cymhorthion ar waith hefyd i gefnogi'r claf i reoli hyn mewn ffordd mor annibynnol â phosibl.

Roedd yr ysbyty mewn cyflwr da ac yn cynnwys dodrefn addas. Roedd dodrefn, gosodiadau a ffitiadau'r ysbyty yn briodol i'r grŵp cleifion. Roedd gan yr ysbyty aelod o staff cynnal a chadw dynodedig a oedd yn ymatebol yn ôl pob sôn; drwy gydol yr arolygiad, gwelsom yr aelod hwn o staff yn ymateb i waith cynnal a chadw ac yn cyflawni'r gwaith hwnnw er mwyn unioni problemau amgylcheddol. Lle bo angen, roedd atgyfeiriadau'n cael eu gwneud at gontractwyr allanol.

### Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod botymau galw nyrs mewn lleoliadau addas er mwyn helpu'r cleifion i alw am gymorth.

### Atal a rheoli heintiau a dihalogi

Drwy gydol yr arolygiad gwelsom fod yr ysbyty yn lân yr olwg heb unrhyw annibendod. Roedd yr offer glanhau wedi'u storio a'u trefnu'n briodol. Roedd system o archwiliadau rheolaidd ar waith o ran rheoli heintiau. Cwblhawyd yr archwiliadau hyn gyda'r nod o nodi meysydd i'w gwella fel bod modd cymryd camau priodol lle y bo angen.

Roedd cynhyrchion glanhau dwylo ar gael yn y manau perthnasol o'r ysbyty; roedd y rhain yn gweithio drwy gydol yr arolygiad. Roedd cyfarpar diogelu personol (PPE) ar gael i'r staff hefyd yn ôl y gofyn, a gwelsom ei fod yn cael ei ddefnyddio ar adegau priodol.

Roedd biniau plastig dynodedig (bin offer miniog) yn cael eu defnyddio i storio a gwaredu eitemau meddygol miniog yn ddiogel, er enghraifft, nodwyddau hypodermig. Fodd bynnag, nid oedd caead ar y bin offer miniog yn y clinig, felly roedd risg y gallai'r cynnwys ollwng ac achosi anaf offer miniog<sup>3</sup>.

---

<sup>3</sup> Ceir anaf offer miniog pan fydd nodwydd hypodermig neu wrthrych miniog arall sydd wedi bod mewn cysylltiad â gwaed, meinwe neu hylif corfforol arall cyn hynny yn treiddio'r croen. Gall yr anafiadau hyn arwain at drosglwyddo afiechydon a gludir yn y gwaed, gan beri risg uwch y

Roedd ystadegau hyfforddiant yn dangos bod 81% o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant Atal a Rheoli Heintiau.

### Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod caeadau ar finiau offer miniog.

## Maeth

Gwelsom fod y cleifion yn cael dewis o brydau bwyd. Gwelsom fwydlen amrywiol a dywedodd y cleifion wrthym eu bod yn gallu dewis eu bwyd. Gwnaethom samplu detholiad o brydau ac roedd y rhain yn edrych yn ddymunol ac yn flasus.

Fel y nodwyd yn gynharach, roedd bwydlenni'r cleifion yn ddarluniadol hefyd er mwyn helpu'r cleifion i ddewis. Hefyd, roedd system cod lliw er mwyn helpu'r cleifion i wybod pa mor iachus oedd pob pryd. Roedd ffrwythau ffres a diodydd ar gael yn hawdd i'r cleifion yn yr ystafell fwyta ac ardaloedd y wardiau.

Fel rhan o'u gofal adsefydlu, gallai'r cleifion ddefnyddio'r gegin therapi galwedigaethol a'r ceginau ar y wardiau neu geginau bach y stiwdios i baratoi eu prydau eu hunain, a oedd yn eu galluogi i gynnal a meithrin sgiliau coginio. Os oedd cleifion wedi cael caniatâd i fod yn absennol o dan Adran 17, gallent hefyd fynd i siopa am fwyd fel rhan o'u gweithgareddau adsefydlu â ffocws cymunedol.

Gallai'r cleifion hefyd ddefnyddio cyfleusterau'r ysbyty i wneud byrbrydau ac roeddent yn gallu archebu cludfwyd i'r ysbyty.

Roedd cofnodion y cleifion yn dangos mewnbwn gan ddeietegydd a Therapi Iaith a Lleferydd (SALT)<sup>4</sup> yn ôl y gofyn. Hefyd, roedd tystiolaeth bod pwysau a

---

bydd y rhai sy'n cael anaf yn cael afiechydon heintus, megis hepatitis B (HBV), hepatitis C (HCV) a'r feirws imiwnoddiffygiant dynol (HIV).

<sup>4</sup> Mae therapyddion iaith a lleferydd (SALT) yn asesu anawsterau llyncu a chyfathrebu. Gallant gynnig cymorth drwy ymarferion llyncu a lleferydd, cyngor deietegol a newidiadau i feddyginiaeth.



BMI<sup>5</sup> yn cael eu monitro fel rhan o ofal y cleifion, ac, yn ôl y gofyn, roedd gwaith monitro bwyd a hylif yn cael ei gwblhau.

## Rheoli meddyginiaethau

Roedd archwiliad allanol gan fferyllydd yn cael ei gynnal yn rheolaidd a oedd yn helpu'r broses o reoli, rhagnodi a rhoi meddyginiaeth yn yr ysbyty. Fodd bynnag, mae angen gwneud gwelliannau o ran trefniadau rheoli meddyginiaeth yr ysbyty.

Roedd y clinig yn cael ei gloi er mwyn atal mynediad anawdurdodedig. Yn ystod ein hadolygiad o'r clinig, roedd y cypyrddau, y troli a'r oergell feddyginiaeth wedi'u cloi.

Gwelwyd tystiolaeth bod tymheredd yr oergell feddyginiaeth yn cael ei fonitro'n rheolaidd er mwyn sicrhau bod meddyginiaeth yn cael ei storio ar y tymheredd a argymhellir gan y gweithgynhyrchydd. Fodd bynnag, gwelsom fod tymereddau'r oergell wedi'u cofnodi y tu allan i'r amrediad gofynnol ar nifer o achlysuron ac nad oedd unrhyw gamau wedi cael eu cymryd o ganlyniad i hynny. Yn dilyn cyngor gan y darparwr fferylliaeth, cafodd y darparwr cofrestredig wared ar y feddyginiaeth y byddai'r tymereddau y tu allan i'r amrediad gofynnol wedi effeithio arni. Cadarnhaodd y darparwr cofrestredig hefyd nad oedd unrhyw feddyginiaeth yr effeithiwyd arni wedi cael ei rhoi i'r cleifion.

Roedd tystiolaeth bod gwiriadau rheolaidd yn cael eu cynnal o dymheredd yr ystafell glinig a bod hyn o fewn y tymheredd a argymhellir gan y gweithgynhyrchydd ar gyfer storio meddyginiaeth.

Yn ystod ein hadolygiad o'r cyflenwadau meddyginiaeth, nodwyd bod anghysondeb rhwng y cyflenwad a nodwyd a swm gwirioneddol y cyflenwad o Gyffuriau a all gael eu Camddefnyddio. Nodwyd hefyd ei bod yn ymarfer safonol yn yr ysbyty i un nyrs gofrestrdig ar ddyletswydd roi a chadarnhau cydbwysedd y cyflenwad o Gyffuriau a all gael eu Camddefnyddio. Mae dilyn safonau Cyffuriau a Reolir a sicrhau bod un nyrs gofrestrdig ar ddyletswydd,

---

<sup>5</sup> Mesur sy'n defnyddio taldra a phwysau unigolyn i gyfrifo a yw ei bwysau yn iach yw mynegai mas y corff (BMI). Mae BMI yn ystyried amrywiadau naturiol mewn siâp cyrff, gan roi ystod pwysau iach ar gyfer taldra penodol.

gyda chymorth aelod arall o staff sydd wedi cael hyfforddiant addas, yn gyfrifol am reoli Cyffuriau a all gael eu Camddefnyddio yn arfer broffesiynol gyffredin. Mae hyn yn darparu elfen ychwanegol o ran craffu a sicrhau diogelwch wrth reoli'r meddyginiaethau hyn.

Adolygwyd samplau o siartiau Cofnod Rhoi Meddyginiaeth (Siartiau MAR)<sup>6</sup>. Roedd pob un o'r siartiau a welwyd yn cynnwys enw'r claf a'i statws cyfreithiol o dan y Ddeddf. Roedd siartiau MAR yn cael eu llofnodi a'u dyddio'n gyson pan fyddai meddyginiaeth yn cael ei rhagnodi a'i rhoi. Ar y cyfan, pan na roddwyd meddyginiaeth i glaf, roedd hyn yn cael ei gofnodi'n briodol. Fodd bynnag, ar un achlysur nodwyd na ddefnyddiwyd y cod safonol i nodi pam na roddwyd meddyginiaeth, a rhoddwyd "x" yn unig.

Roedd y Siartiau MAR yn cynnwys copi o'r Tystysgrifau Cydsynio i Driniaeth diweddaraf a oedd yn awdurdodi meddyginiaeth (ar gyfer anhwylder meddyliol) o dan y Ddeddf. Felly, roedd nyrsys cofrestredig yn gallu cadarnhau bod meddyginiaeth wedi cael ei hawdurdodi o dan y Ddeddf.

Mae gan bob claf ddogfen "Fy Meddyginiaeth" sy'n cael ei chadw yn ei ffeil iechyd corfforol yn ei gofnodion. Fodd bynnag, nid oedd tystiolaeth i ddangos sut y caiff y claf ei gefnogi i ddeall ei feddyginiaeth; y rheswm pam ei fod yn ei chymryd ac unrhyw sgil-effeithiau. Mae hyn yn bwysig am ei fod yn sicrhau bod y cleifion yn cael y wybodaeth orau am eu meddyginiaeth ac yn cael eu cefnogi yn eu dewis i gydsynio neu fel arall.

Roedd yn gadarnhaol nodi, fel rhan o'r model gofal adsefydlu, lle y bo'n briodol, y byddai'r cleifion yn gallu rheoli a rhoi eu meddyginiaeth eu hunain.

Roedd cyfarpar dadebru brys a meddyginiaeth frys ar gael yn hawdd i'r staff ac roedd tystiolaeth i ddangos bod archwiliadau yn cael eu cwblhau bob wythnos. Fodd bynnag, gwnaethom nodi un eitem â dyddiad a oedd wedi dod i ben yn ddiweddar, Medi 2019, ac un eitem lle nad oedd y pecyn wedi'i selio mwyach; cafodd yr eitemau hyn eu tynnu a rhoddwyd rhai newydd yn eu lle ar unwaith. Cadarnhaodd y darparwr cofrestredig hefyd y byddai rhestr wirio cynnwys

---

<sup>6</sup> Defnyddir Cofnod Rhoi Meddyginiaeth fel cofnod cyfreithiol o'r cyffuriau a roddir i glaf gan weithiwr gofal iechyd proffesiynol. Mae'r Cofnod Rhoi Meddyginiaeth yn rhan o gofnod parhaol claf ar ei siart feddygol.

newydd yn cael ei rhoi ar waith sy'n cynnwys dyddiadau dod i ben unigol y cynnwys.

### Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau'r canlynol:

- Bod meddyginiaeth y mae'n rhaid ei chadw mewn oergell yn cael ei storio ar y tymheredd sy'n ofynnol
- Bod trefniadau priodol ar waith ar gyfer rheoli meddyginiaeth a chydbwysio cyflenwadau, gan gynnwys Cyffuriau a all gael eu Camddefnyddio
- Bod y staff yn rhoi cod penodol i egluro pam na roddwyd meddyginiaeth
- Bod y cleifion yn cael eu cefnogi i ddeall eu meddyginiaeth; y rheswm pam eu bod yn ei chymryd ac unrhyw sgil-ffeithiau
- Bod trefniadau priodol ar waith i sicrhau bod cyfarpar dadebru brys a meddyginiaeth frys ar gael ac o fewn eu dyddiadau defnyddio.

### Diogelu plant a diogelu oedolion sy'n agored i niwed

Roedd prosesau sefydledig ar waith i sicrhau bod yr ysbyty'n diogelu oedolion a phlant sy'n agored i niwed, gydag achosion yn cael eu hatgyfeirio at asiantaethau allanol yn ôl y gofyn.

Roedd yr ystadegau hyfforddiant a ddarparwyd gan y darparwr cofrestredig yn dangos bod 91% o'r staff wedi cael yr hyfforddiant diogelu oedolion diweddaraf a bod 84% wedi cael yr hyfforddiant diogelu plant diweddaraf.

### Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Gwelsom fod trefniadau llywodraethu ar waith a oedd yn helpu i alluogi'r staff i roi gofal diogel a chlinigol effeithiol i'r cleifion. Fodd bynnag, mae angen gwneud gwelliannau o ran rheoli meddyginiaeth a gwiriadau cyfarpar brys a meddyginiaeth. Mae manylion pellach am y rhain wedi'u cynnwys yn adran rheoli meddyginiaethau yr adroddiad hwn a'r cynllun gwella yn Atodiad B.

### Rheoli cofnodion

Roedd cofnodion cleifion ar ffurf dogfennaeth bapur gan amlaf ac roeddent yn cael eu storio'n ddiogel mewn swyddfeydd dan glo i atal mynediad

anawdurdodedig ac achosion o dor-cyfrinachedd; lle roedd cofnodion electronig, roedd y rhain yn cynnwys cyfrineiriau. Gwelsom y staff yn diweddarau ac yn storio'r cofnodion yn briodol yn ystod ein harolygiad.

Ar y cyfan, roedd cofnodion y cleifion yn drefnus ac yn hawdd eu deall. Fodd bynnag, mae angen gwneud rhai gwelliannau o ran cysondeb mynegeio, yn enwedig yn ffeiliau iechyd corfforol cleifion unigol, er mwyn helpu wrth ffeilio a chyfeirio at wybodaeth.

Hefyd, roedd y lle storio yn y swyddfa nyrsio yn gyfyngedig a oedd yn golygu nad oedd rhai ffeiliau yn cael eu storio ar silffoedd neu mewn cabinetau er mwyn cael gafael arnynt yn hawdd; roeddent wedi'u gadael ar arwynebau desgiau mewn ffordd anhrefnus.

### Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau'r canlynol:

- Bod cofnodion y cleifion yn cael eu mynegeio'n gyson
- Bod lle storio dynodedig ar gael ar gyfer yr holl ffeiliau cleifion yn y swyddfa nyrsio.

### Monitro'r Ddeddf Iechyd Meddwl

Adolygwyd dogfennau cadw statudol tri chlaf. Adolygwyd hefyd y prosesau llywodraethu ac archwilio a oedd ar waith i fonitro'r defnydd o'r Ddeddf yn yr ysbyty.

Roedd y tri set o ddogfennau statudol yn cadarnhau bod y cleifion yn cael eu cadw'n gyfreithlon. Roedd yn amlwg bod y cyfnodau cadw wedi cael eu hadnewyddu yn unol â gofynion y Ddeddf. Roedd cyfnodau cadw wedi cael eu hadnewyddu'n gywir ar ffurflenni statudol ac roedd copïau o bapurau cadw cyfreithiol ar gael.

Roedd cofnodion y cleifion yn dangos eu bod wedi cael eu hysbysu am eu hawliau yn unol ag Adran 132 o'r Ddeddf. Roedd y cofnodion yn dangos bod apeliadau yn erbyn cyfnodau cadw yn cael eu cynnal o fewn yr amserlenni gofynnol.

Roedd meddyginiaeth yn cael ei rhoi i gleifion yn unol ag Adran 58 o'r Ddeddf, Cydsynio i Driniaeth; fel y nodwyd uchod, roedd tystysgrifau cydsynio i driniaeth yn cael eu cadw gyda'r Siart Cofnod Rhoi Meddyginiaeth gyfatebol. Fodd bynnag, ers ein harolygiad ym mis Chwefror 2019, nid oedd unrhyw gofnod o

hyd o drafodaethau'r ymgylgoreion statudol â'r Meddyg a Benodwyd i roi Ail Farn (SOAD). Yn ystod yr arolygiad, datblygwyd ffurflen safonol er mwyn galluogi ymgylgoreion statudol i gofnodi eu trafodaeth â'r SOAD.

Roedd pob achos o ryddhau cleifion dros dro o'r ysbyty wedi cael ei awdurdodi gan y clinigydd cyfrifol ar ffurflenni Rhyddhau Adran 17. Roedd y ffurflenni Rhyddhau Adran 17 yn nodi'n glir yr amodau rhyddhau, h.y. wedi'i hebrwng neu heb ei hebrwng, lleoliad a hyd. Cofnodwyd hefyd a oedd y claf wedi cael cynnig ac wedi derbyn copi o'i ffurflen Absenoldeb Adran 17.

### Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod cofnod clir o drafodaeth pob ymgynghorai statudol â'r SOAD.

### Monitro Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010: Cynllunio a darparu gofal

Adolygwyd cynlluniau gofal pedwar claf i gyd.

Gwelwyd tystiolaeth bod cydgysylltwyr gofal wedi cael eu nodi ar gyfer y cleifion. Roedd y Cynlluniau Gofal a Thriniaeth yn adlewyrchu parthau Mesur Cymru gydag amcanion mesuradwy, ac roeddent yn cael eu hadolygu'n rheolaidd.

Er mwyn cefnogi cynlluniau gofal y cleifion, roedd amrywiaeth o asesiadau cleifion yn cael eu cwblhau er mwyn nodi a monitro eu gofal, ynghyd ag asesiadau risg a oedd yn nodi'r risgiau a nodwyd a sut i'w lliniaru a'u rheoli.

Roedd cynlluniau gofal unigol yn cyfeirio at gryfderau'r claf ac yn canolbwyntio ar wellhad, adsefydlu ac annibyniaeth. Roedd y rhain wedi cael eu datblygu gydag aelodau o'r tîm amlddisgyblaethol ac yn defnyddio ymarfer sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Cafwyd tystiolaeth o gynlluniau i ryddhau cleifion ar gyfer y rheini sy'n dilyn y llwybr hwnnw.

Ers ein harolygiad blaenorol, roedd yr ysbyty wedi cyflwyno ffeiliau iechyd corfforol cynhwysfawr. Roedd cofnodion dau o dri chlaf yn dangos tystiolaeth o asesiad iechyd corfforol cyffredinol cyfredol a oedd wedi'i gwblhau'n llawn.

Roedd asesiadau manwl safonol i gyd-fynd â'r rhain, a oedd yn cynnwys asesiadau risg sgôr briw pwyso ac asesiad risg o gwmpo. Fodd bynnag, yn un o'r tri roedd yr asesiad iechyd corfforol cyffredinol ond wedi'i gwblhau'n rhannol.

Roedd ffeiliau iechyd corfforol hefyd yn cynnwys dogfennaeth monitro safonol megis NEWS<sup>7</sup> a MUST<sup>8</sup>. Fodd bynnag, yng nghofnodion un claf nid oedd ei ddogfennaeth monitro iechyd corfforol wedi'i chwblhau'n llawn. Mae hyn yn golygu efallai na fydd newidiadau i'w iechyd corfforol yn cael ei nodi'n brydlon, gan achosi oedi wrth fynd i'r afael â'r mater a all arwain at ddirywiad yn iechyd y claf.

Roedd yn gadarnhaol nodi bod cofnodion y cleifion yn cynnwys Pasbort Ysbyty cyfredol. Mae'r rhain yn helpu pobl sydd ag anableddau dysgu i roi gwybodaeth gyffredinol am yr unigolyn a'i iechyd corfforol i staff mewn ysbytai cyffredinol pan gânt eu derbyn i'r ysbyty.

Er i'r cleifion y gwnaethom siarad â nhw gadarnhau eu bod yn cael eu hannog i fod yn rhan o'r gwaith o ddatblygu eu gofal, nid oedd y cynlluniau gofal yn adlewyrchu hyn yn llawn. Er bod cynlluniau gofal wedi'u hysgrifennu o safbwynt y claf yn y person cyntaf, gwelsom nad oedd dyfyniadau gan y cleifion ac nad oedd yr iaith yn adlewyrchu bod y cleifion wedi cael eu cynnwys na'u safbwyntiau ar y cynlluniau gofal.

### Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau'r canlynol:

- Bod gan bob claf asesiad cyffredinol cyflawn a chyfredol o'i iechyd corfforol

---

<sup>7</sup> Canllaw a ddefnyddir gan wasanaethau meddygol i bennu difrifoldeb salwch claf yn gyflym yw'r Sgoriau Rhybuddio Cynnar Cenedlaethol. Mae'n seiliedig ar arwyddion hanfodol fel cyfradd resbiradu, dirlawnder ocsigen, tymheredd, pwysedd gwaed, cyfradd curiad y galon, ymateb AVPU (effro, llafar, poen, anymatebol).

<sup>8</sup> Adnodd sgrinio pum cam yw MUST (Sgrinio Cyffredinol Diffyg Maethiad) sy'n nodi oedolion sy'n dioddef o ddiffyg maeth, sydd mewn perygl o ddioddef o ddiffyg maeth neu sy'n ordew. Mae hefyd yn cynnwys canllawiau rheoli y gellir eu defnyddio i ddatblygu cynllun gofal.

- Bod dogfennaeth monitro iechyd corfforol wedi'i chwblhau ac y gweithreidir arni yn ôl y gofyn
- Bod cynlluniau gofal yn dangos bod y cleifion wedi cael eu cynnwys ac yn cynnwys eu safbwyntiau.

### **Y Ddeddf Galluedd Meddyliol a Threfniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid**

Fel y nodwyd yn gynharach, roedd dogfennaeth DoLS ar waith a oedd yn sicrhau dilysrwydd yr awdurdodiadau DoLS. Roedd hefyd gynlluniau gofal DoLS ar waith i gyfarwyddo staff o ran rheoli'r claf o dan y trefniadau diogelu hyn.

## Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

*Ystyriwyd y ffordd y mae'r gwasanaethau yn cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn helpu i ddarparu gofal diogel ac effeithiol. Ystyriwyd hefyd sut mae'r gwasanaeth yn adolygu ac yn monitro ei berfformiad ei hun yn erbyn y Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol a'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol.*

Roedd gan yr ysbyty strwythurau a systemau llywodraethu clinigol a chorfforaethol penodol i lywio gweithrediad yr ysbyty.

Roedd aelodau o staff yn cael eu recriwtio mewn proses agored a theg ac roedd gwiriadau cyflogaeth priodol yn cael eu cynnal cyn cyflogaeth.

Roedd y staff yn ymroddedig ac yn wybodus ac yn dangos dealltwriaeth dda o anghenion unigol y cleifion yn yr ysbyty.

Mae angen gwneud gwelliannau o ran cwblhau hyfforddiant gorfodol ac mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod yr holl staff yn cael arfarniadau perfformiad blynyddol.

### Fframwaith llywodraethu ac atebolrwydd

Nodwyd gennym fod systemau a phrosesau penodol iawn ar waith i sicrhau bod yr ysbyty yn canolbwyntio ar wella ei wasanaethau'n barhaus. Roedd hyn yn cael ei gyflawni, yn rhannol, drwy raglen dreigl o archwiliadau a'i strwythur llywodraethu esblygol a oedd yn galluogi aelodau allweddol/enwebedig o staff i gyfarfod yn rheolaidd er mwyn trafod canlyniadau clinigol sy'n gysylltiedig â darparu gofal cleifion. Roedd y trefniadau hynny'n cael eu cofnodi fel y gellid eu hadolygu.

Ers ein harolygiad blaenorol, bu nifer o newidiadau o ran personél uwch yn yr ysbyty. Roedd rheolwr yr ysbyty (rheolwr cofrestredig) a'r rheolwr cynorthwyol wedi gadael ym mis Awst a mis Gorffennaf. Roedd y ddwy swydd wag wedi cael eu llenwi, gyda'r rheolwr cynorthwyol newydd yn y swydd ers mis Awst ac roedd disgwyl i reolwr yr ysbyty ddechrau yr wythnos ar ôl yr arolygiad. Yn y cyfamser, roedd y Cyfarwyddwr Gweithrediadau yn goruchwyllo'r gwaith o weithredu'r ysbyty o ddydd i ddydd. Cawsom wybod y byddai rheolwr yr ysbyty



a benodwyd yn ddiweddar yn cyflwyno ei gais cofrestru i fod yn rheolwr cofrestredig unwaith y byddai wedi dechrau yn y swydd.

Siaradodd y staff yn gadarnhaol am yr arweinyddiaeth a'r cymorth a oedd yn cael eu darparu gan y rheolwyr presennol yn yr ysbyty. O'n sgysiau â'r staff roedd yn gadarnhaol nodi eu bod yn datgan bod morâl y staff wedi parhau i wella ers ein harolygiad diwethaf, gyda help arweinwyr presennol yr ysbyty.

Roedd yn gadarnhaol bod staff Coed Du Hall, drwy gydol yr arolygiad, yn fodlon derbyn ein barn, ein canfyddiadau a'n hargymhellion.

### Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod unigolyn dynodedig yn cyflwyno cais i fod yn rheolwr cofrestredig.

### Delio â phryderon a rheoli digwyddiadau

Gwelsom fod prosesau sefydledig ar waith ar gyfer ymdrin â phryderon a rheoli digwyddiadau yn yr ysbyty.

Roedd hi'n amlwg bod pryderon a digwyddiadau yn cael eu monitro'n lleol yn Coed Du Hall, a bod y rhain yn cael eu trafod yn ddyddiol. Roedd system adolygu ar waith er mwyn rhoi trosolwg ychwanegol a deall gwersi a ddysgwyd o ddigwyddiadau.

### Cynllunio'r gweithlu, hyfforddiant a datblygiad sefydliadol

Gwnaethom adolygu'r drefn staffio yn Coed Du Hall. Roedd yr ysbyty'n ceisio recriwtio ar gyfer swydd nyrs gofrestrdig a gweithiwr cymorth gofal iechyd. Er mwyn gwneud iawn am unrhyw brinder staff a allai godi oherwydd swyddi gwag, roedd gan y darparwr cofrestredig system banc staff ar waith, ynghyd â defnydd staff asiantaeth. Roedd nyrsys cofrestredig asiantaeth fel rheol yn unigolion a oedd yn cael eu cyflogi'n aml yno a oedd yn gyfarwydd â gweithio yn yr ysbyty a'r grŵp cleifion; roedd hyn yn helpu o ran parhad gofal i'r cleifion.

Roedd gan y darparwr cofrestredig ffeil o weithwyr asiantaeth. Roedd hyn yn cynnwys tystiolaeth bod yr aelod o staff asiantaeth wedi cael hyfforddiant perthnasol a bod gwiriadau wedi cael eu cynnal, ynghyd â thystiolaeth ei fod wedi cwblhau cyfnod sefydlu yr ysbyty cyn dechrau gweithio yn Coed Du Hall. Gwnaethom adolygu sampl o 10 o staff asiantaeth a oedd yn cael eu defnyddio'n aml yn yr ysbyty. Nid oedd y wybodaeth sefydlu ar gyfer tri o'r staff yn bresennol yn y ffeil. Cafwyd y wybodaeth gan yr asiantaeth ac unionwyd y

sefyllfa yn ystod yr arolygiad. Mae'n angenrheidiol i'r ysbyty gael copi o'r wybodaeth hon ar y safle er mwyn gallu cadarnhau'r wybodaeth ar unrhyw adeg.

Edrychwyd ar yr ystadegau ar gyfer hyfforddiant gorfodol i'r staff a gwelwyd bod cyfraddau cwblhau e-ddysgu yn uwch na 75% ac eithrio hyfforddiant asesiad risg a oedd yn 69%. Roedd ystadegau hyfforddiant ystafell ddosbarth yn dangos bod angen gwneud gwelliannau yn y tri chwrs: ymyrryd yn gorfforol (79%), Cymorth Cynnal Bywyd Sylfaenol (56%) a Hyfforddiant Tân (65%). Roedd y darparwr cofrestredig wedi trefnu sesiynau hyfforddiant ystafell ddosbarth pellach ar gyfer y modiwlau hyn i wella cydymffurfiaeth.

Gwnaethom adolygu cofnodion cyfarfodydd llywodraethu clinigol a oedd yn dangos cofnod clir bod cydymffurfiaeth â hyfforddiant yn cael ei monitro a bod camau yn cael eu cymryd i wella cydymffurfiaeth. Roedd hefyd yn gadarnhaol nodi bod y staff wedi cwblhau hyfforddiant ychwanegol priodol o ran gofalu am y grŵp cleifion a oedd yn cynnwys hyfforddiant Hyfywedd Meinwe a hyfforddiant Sepsis. Fodd bynnag, nid oedd hyfforddiant priodol yn cael ei ddarparu i'r staff mewn perthynas â'r Ddeddf. Dywedodd rhai o'r staff y gwnaethom siarad â nhw wrthym nad oeddent yn teimlo bod ganddynt ddigon o ddealltwriaeth yn y maes hwn ac y byddent yn cael budd o hyfforddiant i wella eu dealltwriaeth a'r ffordd maent yn rhoi gofal i'r cleifion.

Roedd y staff yn cwblhau arfarniadau perfformiad blynyddol ac roedd y rhain yn cael eu dogfennu fel tystiolaeth eu bod wedi cael eu cwblhau. Roedd 88% o'r staff wedi cael arfarniad blynyddol ac roedd cynlluniau i sicrhau bod yr holl staff wedi cael arfarniad cyn diwedd mis Tachwedd.

### Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau'r canlynol:

- Bod yr holl ddogfennaeth am hyfforddi gweithwyr asiantaeth a sefydlu yn cael ei chadw yn yr ysbyty
- Bod pob aelod o'r staff yn cwblhau ei hyfforddiant gorfodol
- Bod y staff yn cael hyfforddiant ar y Ddeddf Iechyd Meddwl a sut i'w gweithredu
- Bod pob aelod o'r staff yn cael arfarniad perfformiad blynyddol.

## Arferion recriwtio a chyflogi'r gweithlu

Esboniodd y staff y prosesau recriwtio a oedd ar waith yn Coed Du Hall. Roedd yn amlwg bod systemau ar waith er mwyn sicrhau bod y broses recriwtio yn un agored a theg. Cyn eu cyflogi, roedd geirdaon staff yn cael eu derbyn, roedd gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn cael eu cynnal ac roedd cymwysterau proffesiynol yn cael eu cadarnhau.

Gwnaethom adolygu ffeiliau chwe aelod o'r staff a oedd yn dangos bod hyn yn digwydd ar y cyfan. Fodd bynnag, roedd un ffeil ond yn cynnwys un geirda. Nid oedd gan bob ffeil gopi o'r contract cyflogaeth. Fodd bynnag, roedd pob un yn cynnwys telerau ac amodau cyflogaeth cyfredol.

Roedd yn gadarnhaol nodi bod gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) yn cael eu hadnewyddu bob tair blynedd fel mater o drefn. Fodd bynnag, ar gyfer un aelod o'r staff a adolygwyd, y dyddiad ar y gwiriad DBS diweddaraf yn y ffeil oedd 2014, sy'n fwy na thair blynedd.

### Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod yr holl staff yn cael gwiriadau DBS yn unol â pholisi'r darparwr cofrestredig.

## 4. Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Os nodir unrhyw achosion difrifol o dorri rheoliadau a phryderon o ran diogelwch a llesiant y cleifion sy'n defnyddio'r gwasanaeth, bydd darparwr cofrestredig y gwasanaeth yn cael ei hysbysu drwy [hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio](#). Mae cyflwyno hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio yn fater difrifol ac yn gam cyntaf mewn proses a all arwain at ddwyn achos sifil neu droseddol.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir pryd a sut yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

## 5. Sut rydym yn arolygu gwasanaethau iechyd meddwl annibynnol

Mae ein harolygiadau o wasanaethau iechyd meddwl annibynnol yn cael eu cynnal yn ddirybudd fel arfer. Byddwn bob amser yn ceisio cynnal arolygiadau dirybudd am fod hyn yn ein galluogi i weld gwasanaethau fel maent yn gweithredu fel arfer. Nid yw'r gwasanaeth yn cael unrhyw rybudd ymlaen llaw o arolygiad dirybudd.

Rhoddir adborth i gynrychiolwyr gwasanaethau ar ddiwedd yr arolygiad, mewn ffordd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefel weithredol a strategol.

Bydd arolygiadau AGIC o wasanaethau iechyd meddwl annibynnol yn ystyried sut mae gwasanaethau yn gwneud y canlynol:

- Cydymffurfio â [Deddf Iechyd Meddwl 1983](#), [Deddf Galluedd Meddyliol 2005](#), [Mesur Iechyd Meddwl \(Cymru\) 2010](#) a gweithredu Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid
- Cydymffurfio â [Deddf Safonau Gofal 2000](#)
- Cydymffurfio â [Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol \(Cymru\) 2011](#)
- Cyrraedd y [Safonau Gofynnol Cenedlaethol](#) ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd Annibynnol yng Nghymru.

Rydym hefyd yn ystyried safonau a chanllawiau proffesiynol eraill fel y bo'n gymwys.

Mae'r arolygiadau hyn yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal o fewn gwasanaethau iechyd meddwl annibynnol.

Ceir manylion pellach am y ffordd y mae AGIC yn arolygu [gwasanaethau iechyd meddwl](#) a [gwasanaethau annibynnol](#) ar ein gwefan.

## Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a gafodd eu huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

<b>Pryderon uniongyrchol a nodwyd</b>	<b>Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion</b>	<b>Sut y cafodd y pryder ei uwchgyfeirio gan AGIC</b>	<b>Sut y cafodd y pryder ei ddatrys</b>
Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol yn ystod yr arolygiad hwn	Ddim yn gymwys	Ddim yn gymwys	Ddim yn gymwys

## Atodiad B – Cynllun gwella

**Gwasanaeth: Coed Du Hall**

**Dyddiad arolygu: 4 - 6 Tachwedd 2019**

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n nodi'r camau gweithredu y mae'n rhaid eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad/ Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<b>Ansawdd profiad y claf</b>				
Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod gwybodaeth am y Ddeddf Iechyd Meddwl yn cael ei harddangos.	9. Gwybodaeth i gleifion a chydsyniad cleifion	Gwybodaeth am y Ddeddf Iechyd Meddwl i gael ei rhoi ar bob hysbysfwrdd.  Gwybodaeth am y Ddeddf Iechyd Meddwl i gael ei rhoi yn yr ystafell ymwelwyr.	LM	20.11.2019
Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod gwybodaeth am AGIC a sut i gysylltu â ni yn cael ei harddangos ar y wardiau.	9. Gwybodaeth i gleifion a chydsyniad cleifion	Gwybodaeth gyswllt AGIC i gael ei rhoi ar yr hysbysfyrddau ac mewn ardaloedd cyhoeddus	LM	20.11.2019
Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei harddangos ar ffurf sy'n	9. Gwybodaeth i gleifion a chydsyniad	Prynu stand ac argraffu gwybodaeth hawdd ei darllen i'w harddangos yn	LM	20.11.2019

Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad/ Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
helpu'r cleifion i'w deall.	cleifion	yr ystafell ymwelwyr.		
<b>Darparu gofal diogel ac effeithiol</b>				
Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod botymau galw nyrs mewn lleoliadau addas er mwyn helpu'r cleifion i alw am gymorth.	22. Rheoli risg ac iechyd a diogelwch 12. Yr amgylchedd	Sicrhau bod cleifion yn gallu cyrraedd y cortyn coch yn nhoiled Ward Beech. Staff cynnal a chadw i gymryd camau unioni Archwilio pob rhan o'r system galw am nyrsys er mwyn sicrhau ei bod yn addas at y diben.	RJ	Ar unwaith.
Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod caeadau ar finiau offer miniog.	13. Atal a rheoli heintiau a dihalogi	Rhodddwyd caeadau ar finiau offer miniog.	ME	Ar unwaith.
Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod meddyginiaeth y mae'n rhaid ei chadw mewn oergell yn cael ei storio ar y tymheredd sy'n ofynnol.	15. Rheoli meddyginiaethau	Oergell newydd gyda larwm electronig a gweledol (pan fydd yr oergell yn mynd y tu hwnt i ystod y tymheredd) i gael ei harchebu i sicrhau bod meddyginiaeth bob amser yn cael ei storio ar y tymheredd sy'n ofynnol.	MF	Archebwyd oergell i gyrraedd ar Ragfyr 19  Cwblhawyd y



Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad/ Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		Addasu'r ddogfennaeth cofnodi er mwyn dangos y tymheredd uchaf, isaf ac union.		ddogfen 07.11.2019
Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod trefniadau priodol ar waith ar gyfer rheoli meddyginiaeth a chydbwysio cyflenwadau, gan gynnwys Cyffuriau a all gael eu Camddefnyddio.	15. Rheoli meddyginiaethau	Aelod arall o'r staff i ail-lofnodi yn y llyfr Cyffuriau a all gael eu Camddefnyddio.	MF	07.11.2019
Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod y staff yn rhoi cod penodol i egluro pam na roddwyd meddyginiaeth.	15. Rheoli meddyginiaethau	Atgoffa nyrsys am bwysigrwydd cofnodi'r cod cywir (3) os na roddir meddyginiaeth a dogfennu'r rhesymau yn y cofnodion dyddiol (Cynlluniau Gofal)	MF	20.11.2019
Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod y cleifion yn cael eu cefnogi i ddeall eu meddyginiaeth; y rheswm pam eu bod yn ei chymryd ac unrhyw sgil-ffeithiau	15. Rheoli meddyginiaethau	Cofnodi bod y cleifion yn cael taflenni ffeithiau meddyginiaeth ar ffurf hawdd i'w darllen yn ystod sesiynau'r Prif Nyrs.  Cwblhau LUNSERS (Graddfa Graddau Sgil Effaith Niwroleptig Prifysgol Lerpwl) i bob claf	MF/Nyrsys/RC	20.11.2019
Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod trefniadau priodol ar waith i sicrhau bod cyfarpar	15. Rheoli meddyginiaethau	Archebu mwgwd newydd yn lle'r un heb ei selio ac ailarchebu'r epipen	GT/RJ	Ar unwaith.

Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad/ Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
dadebru brys a meddyginiaeth frys ar gael ac o fewn eu dyddiadau defnyddio.		sydd wedi mynd heibio i'w ddyddiad defnyddio.  Cwblhau archwiliad misol o gyfarpar brys i sicrhau gwaith craffu a chamau gweithredu a gweithgarwch prydlon yn ôl yr angen.		
Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod cofnodion y cleifion yn cael eu mynegeo'n gyson.	20. Rheoli cofnodion	Argraffu mynegeion a oedd ar goll ar gyfer ffeiliau dau glaf er mwyn helpu i ffeilio'n gywir.	NIC	Ar unwaith
Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod lle storio dynodedig ar gael ar gyfer yr holl ffeiliau cleifion yn y swyddfa nyrsio.	20. Rheoli cofnodion	Adolygu ffeiliau lechyd Corfforol a threfnu iddynt gael eu ffeilio dan glo	MF	20.11.2019
Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod cofnod clir o drafodaeth pob ymgynghorai statudol â'r SOAD.	Deddf lechyd Meddwl	Datblygu a defnyddio ffurflen newydd i gofnodi ymgynghoriadau SOAD.	LM	Ar unwaith
Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod gan bob claf asesiad cyffredinol cyflawn a chyfredol o'i iechyd corfforol.	Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010	Cwblhau trosolwg iechyd corfforol sydd heb ei gwblhau ar gyfer un claf.  Sicrhau bod gan bob claf asesiad cyffredinol cyfredol o'i iechyd corfforol.	MF	20.11.2019

Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad/ Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod dogfennaeth monitro iechyd corfforol wedi'i chwblhau ac y gweithredir arni yn ôl y gofyn.	Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010	Cwblhau'r holl ddogfennaeth monitro iechyd corfforol ar gyfer pob claf. Adolygu ac archwilio unwaith y bydd y broses wedi'i chwblhau.	MF/AG	20.11.2019 Archwiliwyd 18.12.2019
Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod cynlluniau gofal yn dangos bod y cleifion wedi cael eu cynnwys ac yn cynnwys eu safbwyntiau.	Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010	Cwblhau Camberwell i adlewyrchu safbwyntiau'r cleifion yn eu geiriau eu hunain a sicrhau y cynigir copi o'r cynllun gofal i'r cleifion, gan gofnodi'r penderfyniad i dderbyn neu fel arall.	MF/Nyrsys	20.11.2019
<b>Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth</b>				
Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod unigolyn dynodedig yn cyflwyno cais i fod yn rheolwr cofrestredig.	1. Fframwaith llywodraethu ac atebolrwydd	Rheolwr newydd i gofrestru ag AGIC a chyflwyno cais	MF	06.12.2019
Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod yr holl ddogfennaeth am hyfforddi gweithwyr asiantaeth a sefydlu yn cael ei chadw yn yr ysbyty.	25. Cynllunio'r gweithlu, hyfforddiant a datblygiad sefydliadol	Diweddarau'r ffeil asiantaeth i gynnwys dogfennaeth cydymffurfiaeth â hyfforddiant a sefydlu. Cwblhau archwiliad rheolaidd i sicrhau cydymffurfiaeth.	LM	20.11.2019
Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod	25. Cynllunio'r gweithlu,	E-bostio'r holl staff i ofyn iddynt gwblhau hyfforddiant nad ydynt wedi'i	LM	20.11.2019

Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad/ Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
pob aelod o'r staff yn cwblhau ei hyfforddiant gorfodol.	hyfforddiant a datblygiad sefydliadol	gwblhau a threfnu hyfforddiant Cymorth Cynnal Bywyd Sylfaenol, Tân ac Ymyrryd yn Gorfforol i sicrhau bod pob aelod o staff wedi cwblhau'r hyfforddiant diweddaraf.  Cwblhau archwiliad misol		
Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod y staff yn cael hyfforddiant ar y Ddeddf Iechyd Meddwl a sut i'w gweithredu.	25. Cynllunio'r gweithlu, hyfforddiant a datblygiad sefydliadol	Datblygu cyflwyniad Powerpoint.  Dyddiadau hyfforddiant staff i'w trefnu.	Dr T/ LM	I ddechrau ym mis Ionawr 2020. (5 <sup>ed</sup> a 12 <sup>fed</sup> )
Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod pob aelod o'r staff yn cael arfarniad perfformiad blynyddol	25. Cynllunio'r gweithlu, hyfforddiant a datblygiad sefydliadol	Sicrhau bod 3 (9 yn flaenorol) arfarniad heb eu cwblhau yn cael eu cynnal.  Cwblhau a chyflwyno cronfa ddata i sicrhau cydymffurfiaeth.	MF/LM	Rheolwr Cofrestredig newydd i'w gwblhau erbyn 31.12.19

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

## Cynrychiolydd y gwasanaeth

**Enw (priflythrennau):** Laura Morgan  
**Teitl swydd:** Rheolwr Cynorthwyol  
**Dyddiad:** 19 Rhagfyr 2019